Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Achosion Cyfraith Breifat a'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol

Mawrth 2012

## Cyflwyniad

Mae'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol wedi amlinellu **diwygiadau sylweddol i'r system cyfiawnder teuluol** yng Nghymru a Lloegr. Comisiynwyd yr Adolygiad gan Lywodraethau'r DU a Chymru fel ymateb i **gynnydd yn nifer a hyd achosion cyfraith teuluol** yn y llysoedd a'r **effaith negyddol** ar deuluoedd a phlant. Cynhyrchwyd adroddiad interim[1] ac adroddiad terfynol yn 2011[2]. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2012[3] yr un pryd â Llywodraeth y DU a gyhoeddodd adroddiad ar wahân yn ymateb i **134 o argymhellion** yn yr Adolygiad, gan **dderbyn bron bob un ohonynt**[4].

1. Mae achosion **cyfraith gyhoeddus** yn ymwneud ag unrhyw achos o **ddiogelu plant** y mae **adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol** ynghlwm wrtho
2. Mae achosion **cyfraith breifat** yn ymwneud ag unrhyw achos o **chwalfa deuluol** pan **na all y rhieni sy'n gwahanu gytuno** ar sut y dylid magu'u plant.

Mae'r Hysbysiad Hwylus hwn yn crynhoi'r hyn sydd gan yr Adolygiad i'w ddweud am y **gyfraith gyhoeddus, ymateb y Llywodraeth** a'r goblygiadau o ran **materion sydd wedi'u datganoli a materion sydd heb eu datganoli** sy'n effeithio ar blant yng Nghymru. Mae hefyd yn amlinellu **beirniadaethau cyrff allweddol.**

Mae Hysbysiad Hwylus wedi'i gynhyrchu hefyd am achosion Cyfraith Gyhoeddus a'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol.

## Yr angen am newid

Mae mwyafrif helaeth y rhieni sy'n gwahanu'n gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer eu plant heb droi at y llys. Yn achos y 10 y cant arall[5], mae'r Adolygiad yn pryderu am yr

[1] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, *Adroddiad interim ar yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol*, Mawrth 2011, [fel ar 29 Chwefror 2012]
[2] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, *Adroddiad terfynol yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol*, Tachwedd 2011 [fel ar 29 Chwefror 2012]
[3] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol), *UK Government's Response to the Family Justice Review* , Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 6 Chwefror 2012 [fel ar 29 Chwefror 2012]
[4] Yr Adran Addysg, *Government Response to the Family Justice Review: A system with children and families at its heart,* Chwefror 2012 [fel ar 2 Mawrth 2012]
[5] Sefydliad Nuffield , *Caring for children after parental separation: would legislation for shared parenting time help children?* Mai 2011 [fel ar 1 Mawrth 2012]

**agwedd wrthwynebol** mewn achosion o ysgariad **a all waethygu unrhyw anghydfod rhwng teuluoedd.** Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'r llysoedd yn ymdrin â **materion cymhleth ac emosiynol iawn** ac **nid yw llawer o rieni'n gwybod lle arall i fynd i gael gwybodaeth a chymorth.** Gall achosion fod yn **ddrud** ac yn **faith**. Mae'r Adolygiad hefyd yn cyfeirio at y **canfyddiad** bod y **system yn ffafrio mamau dros dadau.**

Yn aml iawn, **ychydig o ymwybyddiaeth sydd gan rieni o ddulliau o ddatrys anghydfod heb ddefnyddio'r llysoedd.** Gall trefniadau a wneir gan y llysoedd i ddatrys anghydfod rhwng rhieni fod yn **anhyblyg a gallant fethu yn y pen draw.** Mae system y llysoedd yn **anodd ei deall** yn enwedig i rieni nad oes ganddynt brofiad o'i defnyddio. Mae'r Adolygiad yn nodi y gallai hyn fod yn broblem sylweddol oherwydd y **toriadau arfaethedig mewn Cymorth Cyfreithiol** a allai arwain at sefyllfa lle mae rhieni'n gorfod cynrychioli'u hunain yn y llys.

Mae'r Adolygiad yn gwneud **argymhellion ar gyfer newidiadau** yn y **meysydd sydd wedi'u datganoli (lles cymdeithasol) a'r meysydd sydd heb eu datganoli (y gyfraith ac achosion teuluol).** Nid yw'r ffin rhwng y ddau bob amser yn glir ond daw'n gliriach gydag amser.

## Meysydd sydd wedi'u datganoli

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am **adrannau gwasanaethau cymdeithasol, lles plant** a **gwasanaethau diogelu plant** awdurdodau lleol. Mae hefyd yn gyfrifol am Wasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (**CAFCASS Cymru**).

Mae'r Adolygiad yn dweud bod angen i rieni sy'n gwahanu gael y wybodaeth briodol i'w helpu ac y dylai Llywodraethau'r DU a Chymru ddarparu **gwybodaeth ar-lein a llinell gymorth genedlaethol** i helpu cyplau i ddatrys anghydfod ac i ddatblygu eu **Cytundeb Rhianta** eu hunain. Mae'r Adolygiad hefyd yn argymell y dylai rhieni gael gwybodaeth am **gyfrifoldeb rhieni**[6], o gofio bod nifer o bobl yn ansicr ynglŷn ag union ystyr hynny.

Pan na all rhieni gytuno ar drefniadau ar gyfer eu plant, mae'r Adolygiad yn nodi y dylid sicrhau mai **gwasanaeth cyfryngu neu wasanaethau datrys anghydfod** yw'r **man cyswllt cyntaf** yn hytrach na system y llysoedd.

Mae'r Adolygiad hefyd yn dweud y dylai plant a phobl ifanc gael **cyfle i leisio barn** mewn unrhyw achos llys sy'n ymwneud â nhw. Mae'n cyfeirio at y *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* wrth drafod pwysigrwydd llais y plentyn. Mae hyn yn golygu bod dull ar gael eisoes i fonitro sut y mae lleisiau plant yn cael eu clywed mewn achosion llys yng Nghymru a sut y maent yn cael y wybodaeth briodol drwy **CAFCASS Cymru**.

## Meysydd heb eu datganoli

Mae'r Adolygiad am weld **Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol** newydd yn cael ei greu i ddwyn ynghyd yr holl wahanol bobl sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder teuluol (meysydd sydd wedi'u datganoli a meysydd sydd heb eu datganoli) ac am weld **Bwrdd**

[6] Diffiniwyd cyfrifoldeb rhiant yn *Neddf Plant 1989*. Mae gan y fam fiolegol gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn awtomatig, a hefyd y tad biolegol os yw'n briod â'r fam neu os yw ei enw ar dystysgrif geni'r plentyn (ers 1 Rhagfyr 2003). Mae dulliau eraill o gael cyfrifoldeb rhiant wdi'u nodi yn*Neddf Plant 1989*.

**Cyfiawnder Teuluol Interim** yn cael ei sefydlu yn y cyfamser.

O ran deddfwriaeth, mae'r Adolygiad yn argymell diddymu gorchmynion cyswllt a phreswyliaeth a chyflwyno **gorchymyn trefniadau plant newydd** yn eu lle. Dadleuir y bydd hyn yn caniatáu i rieni feddwl am **drefniadau ymarferol ar gyfer eu plant** yn hytrach na chanolbwyntio ar delerau **preswyliaeth a chyswllt** a allai fod **yn bwnc dadleuol**.

Argymhelliad arall yn yr Adolygiad yw na **ddylid cyflwyno deddfwriaeth ar rianta ar y cyd** a hynny er mwyn osgoi unrhyw **ganfyddiad o hawl rhiant** i rannu amser gyda'r plant neu i dreulio amser cyfatebol gyda nhw. Mae'n trafod pryderon am beryglon **gwanhau'r egwyddor** mai **lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf oll mewn unrhyw achos llys**. **Nid yw Llywodraeth y DU wedi derbyn** yr argymhelliad hwn ac mae am ddatblygu cynigion i annog y ddau riant i fod â chymaint o ran â phosibl ym magwraeth eu plant[7].

Os **nad yw rhieni'n cydymffurfio** â'r trefniadau y mae barnwr wedi penderfynu **sydd orau i'r plentyn** mae angen **prosesau clir a chyflym** i ddatrys y sefyllfa, gan atgyfnerthu'r syniad **bod gan blentyn hawl i gael perthynas â'r ddau riant** os yw hynny'n ddiogel. Pan fydd gorchymyn llys yn cael **ei dorri cyn pen blwyddyn** mae'r Adolygiad yn dweud y dylai'r achos gael ei glywed gan **yr un barnwr** a wnaeth y gorchymyn gwreiddiol, y dylid **clywed yr achos cyn pen nifer benodol o ddyddiau** ac y dylid **penderfynu ar yr achos mewn un gwrandawiad.** Pan fydd gorchymyn yn cael **ei dorri ar ôl deuddeg mis** dylai'r rhieni ddefnyddio **gwasanaeth datrys anghydfod**, er mwyn eu hannog i ddod i gytundeb heb ddychwelyd i'r llys.

O ran diwygio system y llysoedd, mae'r Adolygiad yn argymell y dylid creu **un llys teuluol,** ar wahân i gyfleusterau eraill y llys. Cydnabyddir y gallai hyn fod yn anoddach mewn **ardaloedd gwledig**. Fodd bynnag, mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith **nad oes angen cynnal pob gwrandawiad mewn ystafell llys.** Er enghraifft, gellid defnyddio **cyfleusterau cynhadledd fideo** mewn ystafelloedd lle mae teuluoedd yn teimlo'n fwy cyfforddus er mwyn i'r profiad fod yn **llai o straen i rieni a phlant**.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ei hymateb, mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r **cynlluniau i wneud cyfryngu'r orfodol** i rieni yng nghyd-destun cynorthwyo plant, drwy'r agenda Hawliau Plant. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar y broses o **ddatblygu datganiad deddfwriaethol ar rianta ar y cyd** ac mae'n nodi ei bod yn bwysig i blant gael perthynas â'r ddau riant os yw hynny'n ddiogel ac os hynny sydd orau i'r plentyn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu **Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol** yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth ar gyfer **Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Interim** a'r cynrychiolwyr o Gymru. Bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf ym mis **Ebrill 2012**.

[7] Yr Adran Addysg, ***Government Response to the Family Justice Review: A system with children and families at its heart***, t66, Chwefror 2012 [fel ar 2 Mawrth 2012]

## Beirniadaeth ar yr Adolygiad

Bu cryn ddadlau am benderfyniad Llywodraeth y DU i ystyried **deddfu ar rianta ar y cyd**[8] er gwaethaf amheuon yr Adolygiad. Bu hyn hefyd yn **bwnc llosg yn Awstralia** ar ôl i'r gyfraith newid yn 2006[9]. Mae pryderon y gall ymgyfreitha newid y pwyslais gan ei osod ar **hawliau'r rhieni yn hytrach na hawliau'r plant**[10]**.** Mae **dau Fil Aelod Preifat** yn ymwneud â rhianta ar y cyd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn **Senedd y DU**[11][12].

Mae cyrff sy'n cynrychioli **teidiau a neiniau** wedi'u siomi nad yw'r Adolygiad wedi mynd mor bell ag yr oeddent wedi gobeithio. Bydd angen i deidiau a neiniau barhau i **geisio caniatâd y llys i wneud cais am orchymyn cyswllt**[13]. I lawer, os oes gan y llys y pŵer i wrthod 'ceisadau blinderus,' mae hynny i'w weld yn rhwystr ychwanegol i'w oresgyn [14].

Mynegwyd pryder am **allu'r system gyfryngu** i ymdopi ag **asesiadau gorfodol**[15]. Codwyd hyn mewn Pwyllgor Seneddol[16] i drafod effaith y **diwygiadau arfaethedig i Gymorth Cyfreithiol** a fydd yn **effeithio'n uniongyrchol** ar gynrychiolaeth gyfreithiol mewn achosion cyfraith teuluol preifat [17].

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, cysylltwch â **Lynette Hayward** (**Lynette.Hayward@Wales.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Hefyd:**

Hysbysiad hwylus: **Achosion Cyfraith Gyhoeddus a'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol**

**Rhif ymholiad: 12/0694 Enw: Lynette Hayward**
**Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.**

**Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk**

[8] Higgs, L., (2012) ***Ministers ignite debate on shared parenting***, Plant a Phobl Ifanc Tach, 21 Chwefror 2012, p10-11 [copi caled]
[9] The Australian, ***John Howard parenting law finds favour in Britain***, 9 Ionawr 2012 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[10] Sefydliad Nuffield, ***Caring for children after parental separation: would legislation for shared parenting time help children?*** Mai 2011 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[11] ***Children (Access to Parents) Bill* [HC]**, Bil 174, 2010-12 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[12] ***Shared Parenting Orders Bill* [HC]**, Bil 56, 2010-12 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[13] Grandparents Association, ***Government response to the Family Justice Review***, 6 Chwefror 2012 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[14] Wythnos Cyfraith Teuluol, ***Norgrove – The Response Considered*** [fel ar 29 Chwefror 2012]
[15] Resolution, datganiad i'r wasg, ***Family Justice Review: vital reforms at risk from legal aid cuts***, 3 Chwefror 2012, [fel ar 1 Mawrth 2012]
[16] ***HC Deb 12 July 2011 c57*** [accessed 1 March 2012]
[17] ***Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Bill [HL]***, Bill 129 2010-12 [fel ar 28 Chwefror 2012]